YR ATODLEN

Gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau ar eu cyfer o dan y Cynllun hwn

# RHAN 6

**At ddiben hyfforddi unigolion sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol, a oedd ynghlwm wrthynt neu sy'n bwriadu bod ynghlwm wrthynt, neu sy'n aelodau o deuluoedd unigolion o'r fath**

**1.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.

**2.** Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.

**3.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.

**4.** Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.

**5.** Gweithgareddau i gefnogi arallgyfeirio busnesau.

**6.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.

**7.** Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.

**8.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.

**9.** Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

**10.** Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.

**11.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

**12.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.

**13.** Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

**14.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

**15.** Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.